---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae swyddogaethau craidd awdurdodau tân ac achub wedi eu nodi yn adrannau 6 i 8 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ("y Ddeddf"). Y swyddogaethau sy'n gysylltiedig â diogelwch rhag tân, diffodd tân a damweiniau traffig ffyrdd yw'r rhain. Mae adran 9 o'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu drwy orchymyn swyddogaethau craidd eraill sy'n ymwneud ag argyfyngau y mae'n rhaid i awdurdodau tân ac achub yng Nghymru ddarparu ar eu cyfer. Mae "emergency" wedi ei ddiffinio yn adran 58 o'r Ddeddf.

Pennodd Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/3193 (Cy. 280)) ("Gorchymyn 2007") swyddogaethau mewn perthynas ag awdurdodau tân ac achub yng Nghymru mewn cysylltiad ag argyfyngau sy'n ymwneud â halogion cemegol, biolegol neu ymbelydrol; argyfyngau sy'n ymwneud ag adeiledd yn cwympo; ac argyfyngau sy'n ymwneud â threnau, tramiau neu awyrennau.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2007. Mae erthygl 2(2) o'r Gorchymyn hwn yn pennu swyddogaethau mewn perthynas ag awdurdodau tân ac achub yng Nghymru mewn cysylltiad ag argyfyngau sy'n ymwneud â llifogydd a dyfroedd mewndirol. Mae erthygl 2(3) yn estyn erthygl 4(a) o Orchymyn 2007, sy'n pennu'r pethau y mae'n rhaid i awdurdodau tân ac achub eu gwneud wrth ddarparu ar gyfer argyfyngau a nodir yng Ngorchymyn 2007. Yn y dyfodol, fel rhan o ddarparu ar gyfer yr argyfyngau hynny, bydd yn ofynnol i awdurdodau tân ac achub sicrhau y darperir cyfarpar.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Gwasanaethau Tân, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ, neu drwy ffonio 0300 0628226.